**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales

Mr Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
mailto:SeneddLJC@assembly.wales

29 Ebrill 2020

Annwyl Dai a Mick,

Ysgrifennais atoch ar 21 Ebrill er mwyn eich hysbysu y byddai cyfarfod arall o'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach yn cael ei gynnal ar 22 Ebrill. Cytunais i ysgrifennu atoch eto ar ôl y cyfarfod hwnnw.

Cafodd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill ei gadeirio gan Conor Burns, y Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol. Roedd Gweinidog Masnach yr Alban a'r Gweinidogion ar gyfer rhannau eraill o'r DU hefyd yn bresennol.

Gwnaeth y cyfarfod ganolbwyntio'n bennaf ar drafod yr ymateb i bandemig COVID-19 ac edrych ar y gwaith yr oedd angen ei wneud er mwyn cefnogi unrhyw gamau i adfer yr economi unwaith y byddai'r argyfwng ar ben. Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer trafodaethau â'r gwledydd sydd â blaenoriaeth yn parhau a chred yr Adran Fasnach ei fod yn rhan bwysig o unrhyw ymdrechion i adfer yr economi.

Yn ystod gweddill y cyfarfod cafwyd diweddariadau ynghylch amseriad Bil Masnach y DU a hynt y gwaith sy'n gysylltiedig â Thariffau Byd Eang. Hwn oedd ail gyfarfod y Fforwm ond mae'r gwaith ymgysylltu yn bositif ac mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth y DU er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Nid oes gennym ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf eto ond byddai'n ysgrifennu atoch eto cyn y bydd unrhyw gyfarfodydd eraill yn cael eu cynnal.

Yr eiddoch,

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language